

<b>Pwyllgor</b>	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
<b>Teitl yr Adroddiad</b>	Adroddiad Blynyddol Addysg 2021-22
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	8 Rhagfyr 2022
<b>Awdur</b>	Garem Jackson, Pennaeth Addysg
<b>Aelod Cabinet Perthnasol</b>	Cynghorydd Beca Brown

## 1. CEFNDIR

- 1.1 Yn unol â dymuniad y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, cyflwynir Adroddiad Blynyddol yr Adran Addysg ar gyfer 2021-22 gerbron y pwyllgor.
- 1.2 Mae'r Adran Addysg yn cydnabod nad tasg hawdd yw sicrhau craffu effeithiol ar ddogfen sydd yn crynhoi blwyddyn o waith yr Adran Addysg ar lawr pwyllgor, ac o ganlyniad, wedi ceisio llunio adroddiad cryno, sydd yn tynnu sylw at brif waith arferol yr Adran, nodweddion cadarnhaol, ynghyd â meysydd sydd angen sylw dros y cyfnod nesaf. Gwelir yr Adroddiad Blynyddol yn Atodiad 1.
- 1.3 At hyn, bydd GwE yn manylu ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni ganddynt hwy ym maes gwella ysgolion er sicrhau trosolwg gyflawn o'r maes i'r pwyllgor ar gyfer 2021-22.

## 2. MEYSYDD ALLWEDDOL O WAITH YR ADRAN ADDYSG YN 2021-22

- 2.1 Yn sgil cyfnod y pandemig a gychwynnodd ym Mawrth 2020, dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym fel Adran ac ysgolion wedi wynebu'r 'normal' newydd, er bod covid yn parhau i effeithio ar ddysgwyr a staff, ac yn parhau i greu heriau i ysgolion o safbwynt gallu darparu addysg ar gyfnodau.
- 2.2 Mae'r 'normal' newydd hwn wedi golygu cael plant a phobl ifanc yn ôl i'r ysgol, i gefnogi eu llesiant corfforol a meddyliol, ynghyd â llesiant staff, ymateb i heriau ymddygiad sy'n sgil-ffaith y pandemig, gyda'r nod o allu darparu addysg o ansawdd i'r holl ddysgwyr.
- 2.3 Yn sicr, cafwyd mwy o sefydlogrwydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac arweiniodd y cyfnod ôl-bandemig eleni at asesiadau allanol arferol (sef arholiadau TGAU a Safon Uwch) i ddysgwyr ar ddiwedd eu gyrfa addysgol ym mlynnyddoedd 11, 12 ac 13 am y tro cyntaf ers 3 blynedd.
- 2.4 Isod tynnir sylw at yr hyn y llwyddwyd i'w gyflawni mewn rhai meysydd allweddol o waith yr Adran Addysg yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, yn cynnwys:
  - Diogelu
  - ADY a CH
  - Cyfundrefn Addysg Drochi
  - Y Gymraeg

### 2.5 Diogelu

Mae Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd yn flaenoriaeth allweddol i'r Adran a'r Cyngor. Mae'r adran wedi creu pecyn hyfforddi newydd yn y Gymraeg ar gyfer Personau Dynodedig mewn ysgolion a chanolfannau addysg ar y cyd â Grŵp Diogelu Mewn Addysg Llywodraeth Cymru.

Mae'r Adran Addysg a gwasanaethau Dysgu a Datblygu'r Cyngor hefyd wedi cyd-weithio i ddatblygu pecyn hyfforddiant ym maes trais domestig. Mae'r pecyn Gofyn a Gweithredu wedi ei ddatblygu ar y cyd ac yn parhau i gael ei gyflwyno i staff yr Adran Addysg.

## 2.6 Gwasanaeth ADY a CH

Mae'r gwaith o drosglwyddo o'r hen Ddeddfwriaeth AAA i'r Ddeddfwriaeth ADY newydd yn parhau i gadw momentwm ac ar drac. Mae'r defnydd o Feini Prawf newydd wedi cael eu hymestyn ymhellach er mwyn gallu adrodd ar gynnydd plant yn ehangach, gan fod dangos cynnydd plant a phobl ifanc sydd ag ADY yn gofyn am ddulliau holistaidd.

Mae nifer o achosion tribiwnlys yng Ngwynedd yn parhau'n isel iawn, gyda thribiwnlysoedd sydd yn ymwneud â darpariaeth o fewn ysgolion Gwynedd wedi bod yn ffafriol o ran yr Awdurdod, sydd wedi rhoi hyder i ni yn ystod y flwyddyn fod darpariaeth addas yn cael ei gyflwyno.

Mae'r gwaith o addasu'r model darpariaeth cynhwysiad wedi cymryd lle ac yn weithredol erbyn hyn. Er hynny, rydym yn ymwybodol fod ymddygiadau plant a phobl ifanc yn peri pryder yn y cyfnod ôl—bandemig, a byddwn yn rhoi sylw i hyn yn y dyfodol agos er mwyn cefnogi ein hysgolion.

Yn ychwanegol, bydd ein gwasanaethau'n parhau i flaenoriaethu'r canlynol ar gyfer cryfhau'r ddarpariaeth:

- Parhau i ymateb yn effeithiol i'r gofynion yn sgil argyfwng COVID-19
- Hyfforddiant ym maes datblygiad emosiynol a llesiant yn parhau i gryfhau ac yn cynnwys hyfforddiant Cymhorthyddion ELSA (Emotional Literacy Support Assistants), Hyfforddiant Galar a Cholled 'Tyfu Trwy'r Tymhorau', cryfhau hyfforddiant ym maes Trawma Datblygiadol.

## 2.7 Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd

Ar 6 Gorffennaf 2021, bu i'r Cabinet gymeradwyo gweledigaeth newydd ar gyfer Cyfundrefn Addysg Drochi yng Ngwynedd. Ers hynny, mae'r Adran wedi bod yn canolbwyntio ar wireddu'r weledigaeth newydd, ac yn ystod y flwyddyn penodwyd pennaeth a dirprwy newydd i'r Gyfundrefn Addysg Drochi. Yn dilyn proses ymgynghori cadarnhawyd strwythur staffio newydd ar gyfer y Gyfundrefn a ddaw yn weithredol yn Ionawr 2023.

Mae buddsoddiad o £1.1m o grant cyfalaf addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru wedi creu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf yn ein safleoedd addysg drochi ym Mangor ac Eifionydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Bellach mae adeilad Eifionydd a Bangor yn barod ar gyfer darparu addysg drochi flaengar a chyfoes mewn ardaloedd strategol o'r sir o arwyddocâd ieithyddol.

Bu i'r Cabinet ar 19 Gorffennaf 2022 roddi cefnogaeth unfrydol i'r adran symud ymlaen i gyflwyno achos fusnes llawn gerbron Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau cyllid o £1.1m o'r ail wedd o Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Gymraeg i gysoni capasiti a gwella amgylchedd dysgu gweddill Canolfannau Iaith cynradd y Sir sef Maesincla, Llanybi a Dolgellau.

Yn ogystal mae llawer o waith cyffrous wedi digwydd yn ystod y flwyddyn yng nghyd destun arian grant refeniw Llywodraeth Cymru. Mae staff y Gyfundrefn wedi bod yn gweithio'n agos efo'r awdures Anni Llŷn i ysgrifennu cynllun trochi newydd ar gyfer y gyfundrefn. Mae'r cynllun newydd hwn yn seiliedig ar bentref dychmygol o'r enw Aberwla ac mae'n ymgorffori patrymau iaith priodol o fewn y continiwm iaith yng Nghwricwlwm i Gymru. I gefnogi'r cynllun rydym mewn cydweithrediad â chwmni 'Animated Technologies' wedi datblygu elfen rithiol i'r pentref. Dyma brosiect arloesol sy'n galluogi ein hwyrddyfodiaid i gamu i Aberwla ar blatfform rithiol i ymarfer patrymau iaith yn yr archfarchnad. Lanswyd y prosiect arbennig hwn yn y pentref Gwyddoniaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Tregaron haf 2022 yng nghwmni'r Gweinidog Addysg Jeremy Miles. Yn ddiweddarach ym mis Awst, cymeradwywyd ein cais i esblygu'r prosiect hwn ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu tri lleoliad arall ym mhentref Aberwla sef Fferm Tyddyn Swnllyd, Cae Glampio, Garej a siop Gajets.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn awyddus iawn i rannu'r adnodd hwn yn genedlaethol ac mae trafodaethau ar y gweill i wneud hynny yn y dyfodol agos. I'r perwyl hwn maent yn awyddus i ariannu datblygu'r holl leoliadau yn y pentref yn ychwanegol i'r grant gwreiddiol. Dyma gydnabyddiaeth i'n gweledigaeth arloesol ac fel cyfundrefn rydym yn ymfalchïo yn yr adnodd rhithiol arloesol hwn ac yn falch o'r cyfle i'w rannu er budd dysgwyr a chefnogi nod y Llywodraeth yn *Cymraeg 2050* ar hyd a lled Cymru.

## 2.8 Y Gymraeg

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r adran wedi bod yn paratoi ar gyfer cynllun newydd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) sydd wedi dod i rym ar 1 Medi 2022. Y mae'r CSGA yn rhan o weledigaeth hir dymor Cymru ar gyfer *Cymraeg 2050*. Er mwyn cefnogi'r broses gynllunio mae'r cynlluniau wedi eu trefnu o gwmpas saith deiliant sy'n adlewyrchu taith addysg dysgwr ac yn cydweddu â meysydd polisi Cymraeg 2050 a Cenhadaeth ein Cenedl.

Bu i'r adran gynnal ymgynghoriad llawn ar ddrafft o'r CSGA newydd yn nhymor yr Hydref 2021, gyda'r ymgynghoriad yn dod i ben cyn y Nadolig. Yn dilyn ystyried sylwadau'r ymgynghoriad, cyflwynwyd y CSGA gerbron y Cabinet am gymeradwyaeth ym mis Mawrth 2022 a gerbron y Pwyllgor Iaith ddechrau'r haf. Fe'i cymeradwywyd yn derfynol gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg ar Fehefin 24 2022.

Wrth i'r CSGA ddod yn weithredol rŵan, bydd Llywodraeth Cymru a'r gweinidog yn parhau i fonitro ein cynnydd a'r camau a gymerwyd gennym yn flynyddol. Ond ein nod yng Ngwynedd yw fod y CSGA yn ddogfen uchelgeisiol fyw sy'n adlewyrchu sefyllfa unigryw Gwynedd ac yn gyrru ein gweithredu o blaid addysg cyfrwng Cymraeg yn y sir.

## 3 PROSIECTAU'R ADRAN ADDYSG

3.1 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roedd gan yr adran addysg nifer o brosiectau blaenoriaeth ym Nghynllun strategol y Cyngor yr oedd disgwyliad i'r adran eu gweithredu yn ystod y flwyddyn.

3.2 Mae blaenoriaethau'r cynllun yn mynd i'r afael â phrif risgiau'r Adran, ynghyd â buddsoddi i addasu ysgolion, neu adeiladu ysgolion newydd er mwyn i blant a phobl ifanc Gwynedd gael eu haddysgu yn yr amgylchedd dysgu gorau posibl.

3.3 Er bod prosiectau blaenoriaeth yr adran wedi bod yn mynd i'r cyfeiriad cywir yn ystod y flwyddyn, rhaid cydnabod yr heriau sydd wedi bod i gyflawni prosiectau cyfalaf yr adran yn ystod y flwyddyn yn sgil heriau'r pandemig a chynnydd mewn costau deunyddiau adeiladu. Isod, manylir ar rai prosiectau blaenoriaeth yr adran.

#### 3.4 Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

##### Dalgylch Bangor

Bu i Ysgol y Faenol gael estyniad sylweddol i gartrefu hyd at 315 o ddysgwyr. Er bod llithriad yn yr amserlen wedi bod o ganlyniad i'r pandemig, bu i'r estyniad gael ei gwblhau yn ystod y flwyddyn, ac mae'r dysgwyr bellach yn gallu manteisio ar yr amgylchedd dysgu newydd. Er hynny, mae trafodaethau ynglŷn â throsglwyddiadau tir yn parhau ac o ganlyniad nid oes modd cwblhau'r gwaith ar faes parcio'r ysgol ar hyn o bryd. Mae'r adeilad wedi ei gynllunio i fod yn hwb i'r ardal leol hefyd gyda chanolfan gymunedol newydd yn cael ei chodi fel rhan o'r datblygiad.

Cwblhawyd gwaith dichonoldeb cychwynnol i adnabod anghenion Ysgol Ein Harglwyddes, ac mae cytundeb i leoli'r ysgol newydd ar safle Ysgol Glanadda (sydd bellach wedi cau) ac mae'r lleoliad hwn yn cyd-fynd gyda dyheadau'r gymuned.

Mae'r adran yn ymwybodol fod cyflwr adeilad ac amgylchedd dysgu presennol Ysgol Tryfan ym Mangor yn wael, ac o ganlyniad bu i'r adran gychwyn y broses o ystyried y cyfleoedd posib ar gyfer sicrhau amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf yno, gan sicrhau dilyniant priodol i'r buddsoddiad sydd eisoes wedi ei wneud yn yr ysgolion cynradd yn ardal Penrhosgarnedd o'r ddinas.

##### Dalgylch Cricieth

Yn sgil cymeradwyaeth y Cabinet i gynyddu capasiti Ysgol Treferythyr i 150 o ddysgwyr, ac adeiladu ysgol newydd yn sgil cyflwr gwael yr adeilad presennol. Fel rhan o'r broses o gyflwyno cais cynllunio ar gyfer adleoli'r ysgol i safle'r A497, yn ystod y flwyddyn cododd dau fater technegol ynglŷn â'r safle, a chomisiynwyd gwaith mewn ymateb i hynny, a bellach mae'r gwaith archeolegol wedi ei gwblhau, ac mae arolwg llwybrau saff i'r ysgol hefyd wedi ei gwblhau ac adroddiad wedi ei gyflwyno i'r Adran Gynllunio.

##### Addysg Ôl-16 yn Arfon

Yn sgil amrywiaeth yn ansawdd yr addysg a phrofiadau dysgwyr ar draws y gyfundrefn Addysg ôl-16 yn Arfon, rhoddodd y Cabinet ganiatâd i'r Adran ymgysylltu gyda rhan-ddeiliaid i drafod y weledigaeth ar gyfer addysg ôl-16 yn Arfon. Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd rhithwir gyda phenaethiaid, Llywodraethwyr, staff, rhieni, dysgwyr a'r gymuned yn ehangach er mwyn cyflwyno'r weledigaeth newydd ar gyfer addysg ôl-16, ynghyd â chasglu barn a syniadau am y ffordd orau i wireddu'r weledigaeth. Rydym wedi adrodd ar negeseuon cychwynnol yr ymgysylltu yma gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ym mis Chwefror y llynedd, ac rydym nawr mewn sefyllfa i allu bwrw ymlaen efo'r prosiect hwn yn sgil yr oedi a fu dros y flwyddyn ddiwethaf.

Yn gysylltiedig â'r maes addysg ôl-16, yn ystod y flwyddyn llwyddodd y Cyngor i ddiddymu'r ffi ar gyfer y tocyn teithio ôl-16 i'r holl ddysgwyr o Medi 2022 ymlaen. Mae hyn yn arbennig o bwysig i sicrhau nad ydym fel Cyngor yn gosod unrhyw rwystrau rhag galluogi ein pobl

ifanc i barhau a'u haddysg wedi 16 oed, ac yn bwysicach fyth y dyddiau hyn o ystyried y cynnydd aruthrol yng nghostau byw.

### Cyflwr ac Addasrwydd

Yn ystod y flwyddyn, fel gyda'r flwyddyn flaenorol, bu i effaith prisiau deunyddiau adeiladu yn sgil Covid a Brexit effeithio ar ein gallu i wireddu rhai o'n cynlluniau i wella cyflwr ac addasu adeiladau ein hysgolion dros y flwyddyn ddiwethaf. Er hynny, llwyddwyd i gwblhau'r buddsoddiad yng nghyflwr ac addasrwydd Ysgol Bethel, Ysgol Glan y Môr ac Ysgol Cymerau gyda gwaith yn parhau ar safleoedd Ysgol Llanrug, ac Ysgol Botwnnog.

### Cinio am ddim

Ym mis Rhagfyr 2021 cyhoeddodd Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg Llywodraeth Cymru bod £25m o arian cyfalaf yn cael ei fuddsoddi yng ngheginau a neuaddau bwyta ysgolion Cymru fel rhan o'r cynlluniau i gyflwyno prydau ysgol am ddim i holl blant cynradd Cymru dros y tair blynedd nesaf. Mae'r polisi yn rhan o'r Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru.

Yn dilyn y cyhoeddiad, o fis Ionawr ymlaen, adolygwyd ceginau a gofod bwyta pob ysgol gynradd yng Ngwynedd gan adnabod pa geginau oedd angen uwchraddio'u hoffer mawr megis poptai a pheiriannau golchi llestri yn ogystal ag offer ysgafn. Casglwyd barn rhieni i weld faint oedd yn bwriadu manteisio ar y cynllun er mwyn cael trosolwg cyn addasu ein seilwaith. O ran yr offer mawr, mae 28 popty combi newydd wedi eu gosod a 17 peiriant golchi llestri, gyda rhagor i'w gosod yn fuan yn y flwyddyn newydd.

Daeth i'r amlwg bod angen estyniad mewn sawl safle i ymdopi gyda'r cynnydd posib yn y nifer fyddai'n bwyta pryd poeth gan fod unai'r gegin neu'r gofod bwyta yn anaddas ac yn rhy fach. Yn ystod gwyliau'r haf ac i mewn i gychwyn y flwyddyn ysgol newydd, bu i'r ysgolion canlynol dderbyn estyniad, sef: Ysgol Hendre, Ysgol Bethel, Ysgol Bro Lleu, Ysgol Llanrug ac Ysgol Maenofferen.

### Trawsnewid y ddarpariaeth ADY a CH

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu i'r prosiect hwn ganolbwyntio ar baratoi tuag at y Ddeddf Anghenion Dysgu a Thribiwnlys Addysg Cymru (2018). Daeth y Ddeddf hon yn weithredol ym Medi 2021, gyda rhai elfennau o'r Ddeddf wedi eu hoedi yn y flwyddyn gyntaf e.e. cyfnod ôl-16.

Yn ystod y flwyddyn, bu i Arolwg Parodrwydd Deddf ADY Llywodraeth Cymru ddangos cynnydd cryf iawn o ran paratodau'r Awdurdod o ran y Ddeddfwriaeth, gyda'r swyddi statudol angenrheidiol mewn lle ers Ionawr 2021 ac yn gweithredu'n effeithiol. Bu i'r cydweithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd ddatblygu'n dda drwy gydweithio gyda'r Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA). Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau hyfforddi rhan-ddeiliaid ar gyfer manylu ar agweddau penodol o'r Cod Terfynol. Bu gwaith ar y llwybrau datrys anghydfod i sicrhau bod rhain yn weithredol. Yn y sector blynyddoedd cynnar llwyddwyd i gyflawni gwaith o safbwynt y systemau angenrheidiol ar gyfer adnabod yn fuan, a sefydlu prosesau clir, ac mae'r gwaith paratoi yn y sector ôl-16 yn parhau. Hefyd bu i'r gwaith o ddatblygu cyswllt gweithio, cwricwlwm ag asesu rhwng y prif-lif a'r Ysgolion Arbennig ddatblygu ac mae'n parhau i ddatblygu.

Mae gwaith arloesol yn parhau i gymryd lle o ran defnydd a datblygiad parhaus y system Cynllun Datblygu Unigol ar-lein, gyda'r system yn gyrru'r holl broses ar gyfer yr ysgolion, rhieni, asiantaethau allanol a darpariaethau addysg eraill (e.e. blynyddoedd cynnar).

#### **4 ARGYMHELLION**

Gofynnir i'r aelodau gyflwyno unrhyw sylwadau ar yr hyn y mae'r Adran Addysg wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn a amlinellir yn y blaenadroddiad hwn a'r Adroddiad Blynyddol yn Atodiad 1, ynghyd ag unrhyw sylwadau ar brosiectau neu flaenoriaethau'r Adran ar gyfer y cyfnod nesaf.